



CHAPTER

Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI Cronfa Arddangos Ffilmiau (CAFf)

Cefnogaeth i Arddangosfa Ffilmiau Annibynnol

Canllawiau Cyllido Awst 2020

Rhagor o bobl, Rhagor o Leoedd, Rhagor o Ffilmiau

Delwedd: Cardiff Animation Festival / Chapter (Caerdydd) © Mission Photographic



Chapter, Heol y Farchnad, Caerdydd, CF5 1QE
www.filmhubwales.org

Gwybodaeth allweddol yn gryno:

- **Cyfanswm sydd ar gael:**
£40,000
- **Dyfarniadau:**
hyd at £5k
- **Ceisiadau yn agor:**
Dydd Llun 17 Awst 2020
- **Ceisiadau yn cau:**
Dydd Llun 21 Medi 2020
- **Cadarnhau dyfarniadau:**
Dydd Mercher 30 Medi 2020
- **Ffenestr gweithgarwch:**
Hydref 2020 - Mawrth 2021

Nod: Nid ar gyfer cyrff newydd neu brosiectau newydd ond i gynorthwyo aelodau cyfredol y ganolfan i ailgychwyn gweithgaredd ac i ailymgysylltu gyda chynulleidfaedd.

CYFLWYNIAD

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn cefnogi arddangoswyr ffilmiau i gyrraedd cynulleidfaoedd gyda ffilmiau annibynnol, Prydeinig a rhyngwladol.

Fel rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm DU gyfan BFI (FAN), ein gweledigaeth ydy adeiladu cynulleidfa sinema ehangach, mwy amrywiol gyda gwerthfawrogiad dyfnach o ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol.

Mae nodau FAN yn ddeublyg:

- Datblygu cynulleidfa fwy, mwy amrywiol, hyderus a chynaliadwy ar gyfer amrediad ehangach o ffilmiau Prydeinig annibynnol a rhyngwladol – gan ganolbwyntio'n bennaf ar y profiad gwyllo torfol,
- Creu sector cryfach, mwy cysylltiedig a hyderus ar gyfer dosbarthu ac arddangos ffilmiau annibynnol Prydeinig a rhyngwadol.

O 20 Mawrth 2020, mae cyflawniad y nodau yma wedi bod mewn perygl oherwydd Covid-19 a chyfarwyddyd y Llywodraeth i gau sinemau, lleoliadau diwylliannol a lleoedd eraill o ymgasglu ar draws y DU, sydd, ynghyd â chanslo gwyliau ffilm, wedi effeithio'n fawr ar allu aelodau FAN i gyflawni'r briff yma.

Tra bod cynulleidfaoedd wrth galon popeth a wna FAN, mae gallu'r sector i gyrraedd y cynulleidfaoedd hynny mewn lleoliad torfol yn gyfan gwbl ddibynnol ar gynaliadwyedd sinemau, gwyliau, lleoliadau cymunedol a chyrff eraill sydd yn rhan o'r Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm.

Nod y Gronfa Arddangos Ffilmiau (GAFf) ydy ailgychwyn y sector arddangos ffilmiau annibynnol a chynorthwyo gydag adferiad cyrff diwylliannol ar draws y DU. Fe fydd yn cefnogi arddangoswyr i ailgychwyn gweithgaredd datblygu cynulleidfa yn unol ag amcanion FAN, rhaglennu ffilmiau Prydeinig annibynnol a rhyngwladol a darparu dangosiadau.



BETH YDY'R GRONFA ARDDANGOS FFILMIAU (GAff)

Rydym yn chwilio am gynigion gan aelodau'r Ganolfan a fydd yn ein helpu i ateb nodau FAN yn ystod y cyfnod Hydref 2020 – Mawrth 2021.

Diben y Gronfa Arddangos Ffilmiau ydy cefnogi aelodau FAN i ailgychwyn rhaglennu diwylliannol ac ymgysylltu gya chynulleidfaoedd eang ac amrywiol wrth iddyn nhw fynd ati i ailagor. Dydy'r gronfa ddim ar gyfer cyrff newydd na phrosiectau newydd gan ei fod wedi ei anelu at helpu aelodau cyfredol y Ganolfan i ailgychwyn gweithgaredd ac ailymgysylltu gyda chynulleidfaoedd.

Blaenoriaeth allweddol y gronfa ydy annog arddangoswyr ffilmiau i gynnwys cynhwysiant a chynladwyedd amgylcheddol i'w dull o ailgychwyn gweithgaredd.

Mae'r Gronfa wedi'i hanelu yn bennaf at Aelodau Canolfan Ffilm sydd yn ymwneud â gweithgaredd wynebu cynulleidfaoedd drwy gydol y flwyddyn. Mae cefnogaeth ar gael i gynnal ac ehangu darpariaeth cyfredol yn cynnwys gweithgaredd cyfyngedig i amser, sydd yn digwydd yn rheolaidd fel gwyliau ffilm lle maen nhw'n gallu dangos cydweddiad cryf gyda blaenoriaethau FAN a lle maen nhw'n delio gydag anghenion strategol y Ganolfan.

Ar y cyfan rhoddir blaenoriaeth i'r aelodau Canolfan hynny sydd ag enw da amlwg o waith sydd yn ateb amcanion FAN a'r rhai a dderbyniodd gyllid o Grofna Gwytnwch Covid-19 FAN BFI (lle mae'n berthnasol).

- Fe ddylai pob cynnig ymateb i amcanion strategol allweddol Canolfan Ffilm Cymru a amlinellir yn y tudalennau canlynol. Rhaid i aelodau'r Ganolfan hefyd allu nodi sut y byddan nhw'n delio gyda [Safonau Amrwyiaeth BFI](#) a chytuno gyda'r [Egwyddorion Gwrth Fwlio ac Aflonyddu BFI](#).
- Rhaid i gynigion hefyd ddangos sut y byddan nhw'n gweithredu yn ddiogel yn ystod Covid-19 a gellir cyfeirio at [UKCA's Cinemas - keeping workers and customers safe during Covid-19 Guidelines](#).

Gall y gweithgaredd a gefnogir gan GAff amrywio o ran hyd, graddfa a fformat ond dylai pob darpariaeth fodd bynnag ddigwydd rhwng Hydref 2020 a Mawrth 2021. Gall aelodau wneud cais am hyd at £5000 a gall cefnogaeth gynnwys rhaglennu, marchnata a chostau cysylltiedig.

Oherwydd yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, ac ymrwymiad FAN i gynladwyedd amgylcheddol, ni chaiff Gyrru i Mewn eu cefnogi drwy'r gronfa yma. Fe fydd gweithgaredd ar-lein yn flaenoriaeth dim ond os yw'n rhan o waith 'mewn lleoliad'.

EIN BLAENORIAETHAU

Caiff pob cynnig ei asesu yn erbyn y gallu a'r potensial i ddiwallu un neu ragor o amcanion craidd FHW:



Delwedd: Iris ar Grwydr © Harrison Williams

Cynhwysiant

Rhaglenni blwyddyn gyfan o ddangosiadau hygyrch sydd yn cynyddu amrediad ac amrywiaeth cynulleidfaoedd sydd yn ymgysylltu gyda ffilmiau:

- Cefnogaeth i gymunedau wedi'u hymylu (e.e. Cynulleidfaoedd LGBTQIA+, BAME, grwpiau henoed, cynulleidfaoedd anabl, ieithoedd lleiafrifol).
- Gwaith maes llawr gwlad penodedig sydd yn dod â chynulleidfaoedd i'r gofod ffilmiau.
- Rhaglenni ffilm sydd yn cynrychioli diwylliannau a hunaniaethau amrywiol ar ac oddi ar y sgrin.

Cynulleidfaoedd ifanc

Cynulleidfaoedd ifanc 16 -30 oed:
Gwella mynediad i ffilmiau, gyda gwerth ychwanegol drwy gydol y flwyddyn:

- Dewisiadau ffilmiau annibynnol a rhyngwladol annibynnol yn rheolaidd ar bris fforddiadwy.
- Anogaethau neu atebion teithio i gynulleidfaoedd ifanc neu deuluoedd mwy ynysig.
- Cyfleoedd i gasglu adborth gan ac adeiladu sgiliau i gynulleidfaoedd ifanc sydd yn gallu ffurfio rhaglenni yn y dyfodol.
- Cynlluniau curadurol ifanc.
- Prosiectau partneriaeth gydag Into Film ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed sydd yn creu perthnasoedd cryf rhwng cynulleidfaoedd ifanc a'u lleoliadau lleol.

Delwedd: Contact a Family Cymru / © Noel Dacey





Delwedd: Joanna Quinn / Anim18 © Helen Griffiths

Ymgysylltu gyda chynulleidfoedd

Denu a chynnal cynulleidfoedd ar gyfer sinema Prydeinig annibynnol (yn cynnwys Cymreig) a rhyngwladol, gan gynnig profiad diwylliannol dwfn:

- Hybu marchnata a gallu cysylltiadau cyhoeddus, profi technegau arloesol i ddenu cynulleidfoedd,
- Defnyddio technolegau digidol i hyrwyddo ymgysylltiad cyfoes gyda ffilmiau, fel sesiynau Holi ac Ateb byw neu vox pops,
- Gwaith maes hir dymor ymysg y cymunedau mwyaf cudd, yn hytrach na digwyddiadau unwaith,
- Ymchwil cadarn ac ymgysylltu gyda chynulleidfoedd sydd yn ein galluogi i ddeall ein cynulleidfoedd.
- Dathlu ffilmiau Gwnaethpwyd yng Nghymru gan gynnig llwyfan i dalent Cymreig,
- Gwyliau neu rwydweithiau arloesol sydd yn annog modelau darpariaeth cynaliadwy a chynulleidfoedd yn dychwelyd i sinemau Prydeinig, rhyngwladol ac annibynnol. Gellir hefyd gofyn am gyllid gan [Ffilm Cymru Wales](#) ar gyfer cyllido gwyliau neu ar gyfer gwyliau o arwyddocad cenedlaethol o [Gronfa Cynulleidfa BFI](#).

Gweler hefyd ein [Strategaeth Gwyliau](#) ar gyfer cefndir.

Treftadaeth

Dathlu ein hunaniaeth cenedlaethol, iaith a diwylliant drwy ffilm:

- Hwyluso rhagor o fynediad i dreftadaeth sgrin gan ganolbwyntio ar gasgliadau cenedlaethol a rhanbarthol, cynyddu gwerthfawrogiad ar gyfer ffilmiau treftadaeth ar draws pob oedran.



Delwedd: Gwaed ar y Sêr (1975) / S4C

Sgiliau

- Gweler ein [canllawiau hyfforddi](#) i wneud cais am fwrseriaeth sgiliau.



Delwedd: ICO & Gentle/Radical

EIN HYMRWYMIAD I GYNHWYSIANT

Safonau Amrywiaeth BFI

Yn unol â [Safonau amrywiaeth BFI](#), rydym yn annog gweithgaredd wedi'i anelu at, ac/neu wedi'i gydgynhyrchu gyda grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

Mae'r Safonau yn canolbwyntio ar dangynrychiolaeth mewn perthynas ag oedran, anabledd, ethnigrwydd, rhyw, LGBTQ+, crefydd a chred (fel ag y maen nhw'n berthynol i [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#)), yn ogystal â chefnidir cymdeithasol economaidd a lleoliad daearyddol.

Rydym yn neilltuol o ymrwymedig i sicrhau bod cynulleidfaoedd sydd yn cael eu heffeithio yn anghymesur, fel pobl Ddu, anabl, byddar a niwrowahanol, yn gallu profi ffilmiau annibynnol ac yn cael croeso i ofod sinema.

Gofynnir i bobl sydd yn cynnig am Gronfa Arddangos Ffilmiau ddangos sut mae eu gweithgaredd yn hyrwyddo cynhwysiant ymysg cynulleidfaoedd, ar y sgrin ac yn y gweithlu.

Rydym yn gofyn i bob cynnig gefnogi'r Safonau a rhoddir blaenoriaeth i gynigion sydd yn gwneud hyn mewn dull clir ac argyhoeddedig. Fe ddylai ymgiswyr ganolbwyntio yn arbennig ar Safon D a sut mae eu cynnig yn darparu cyfloedd datblygu cynulleidfa cynhwysol.

Mae tîm y Ganolfan gerllaw i helpu ymgeiswyr i ddehongli'r Safonau, cysylltwch os gwelwch yn dda am ragor o wybodaeth.

Delwedd: 73 Degree Cinema / Tŷ Pawb (Wrecsam) © Geraint Perry



MEYSYDD CANOLBWYNTIO YCHWANEGOL

Cynaliadwydd Amgylcheddol

Rydym yn ymrwymedig i leihau effaith amgylcheddol y gwaith a gefnogwn ac rydym yn gofyn i bawb sydd yn derbyn cyllid i wneud yr hyn a allant i gyfrannu at y nod yma.

Fel rhan o'ch cais, gofynnir i chi pa fesurau y gallech eu cymryd i gadw effaith amgylcheddol eich prosiect i'r lleiaf.

Mae rhai enghreifftiau ysbrydoledig o arddangoswyr sydd yn gwneud gwaith yn y maes yma yn cynnwys **Scott Cinemas, HOME, Curzon and Depot**. Mae gennym hefyd restr o adnoddau ar ein gwefan, yn cynnwys [ICO Greening Your Cinema Toolkit](#).

Bwlio ac Aflonyddu

Dydy BFI na Chanolfan Ffilm Cymru ddim yn dioddef unrhyw gamdriniaeth, bwlio ac aflonyddu yn ein cyrff ein hunain ac aelodau FAN a gyllidwn.

Datblygodd BFI a BAFTA set o egwyddorion a chanllaw goddefiad sero mewn ymgynghoriad gyda chyrff, undebau a chyrff y diwydiant ar draws y diwydiant ffilmiau, teledu a sinema mewn ymateb i broblemau brys a systematig.

Mae'r dogfennau ar gael [yma](#). Gofynnwn i'r holl ymgeiswyr ymgysylltu gyda'r egwyddorion yma drwy, ar y lleiaf, eu darllen a'u rhannu o fewn eich corff.

Gofynnir hefyd i ymgeiswyr gynnwys copi o'u polisiau bwlio ac aflonyddu gyda'u cynnig. Os nad oes gennych bolisi ar hyn o bryd, cysylltwch os gwelwch yn dda a gallwn eich cefnogi gyda hyn.

*Dydy cynaliadwydd amgylcheddol a Bwlio ac Aflonyddu ddim yn feini prawf asesu ffurfiol, ond defnyddir yr wybodaeth a ddarparwch i fesur sut y gallwn eich cefnogi ymhellach yn y maes yma a sicrhau arfer gorau ar draws y Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm. Os bydd costau ychwanegol cymhedrol ynghlwm gyda gweithredu arfaethedig gallwch gynnwys y rhain yn eich cyllideb ar gyfer eu hystyried.

CYMHWYSEDD A'R BROSES O GYFLWYNO

1. Pwy sydd yn gallu wneud cais?

Rhaid i chi fod yn *aelod Canolfan i fanteisio ar gyfleoedd cyllido Canolfan Ffilm Cymru. Mae ein haelodaeth yn cynnwys cyrff o amrywiol faint a siâp – o sinemau cymunedol i wylliau i ganolfannau amlgelfyddydol. I ddod yn aelod, llanwch ein [Ffurflen Gais](#). E-bostiwrch ni os nad ydych yn sicr os ydych yn aelod cyfredol ai peidio.

Dydy Cyrff Arweiniol Canolfannau Ffilm ddim yn gymwys i wneud cais ar gyfer eu gweithgaredd eu hunain, hyd yn oed os ydyn nhw'n diwallu'r meini prawf uchod.

2. Am faint y gallaf wneud cais?

Gall aelodau ofyn am hyd at £5000 fesul cynnig.

Nid ydym yn gallu cyllido 100% o gostau gweithgaredd. Er nad oes gennym fynediad canran penodedig ar gyfer cyllid cyfatebol, rydym yn disgwyl gweld incwm gwerthiant tocynnau a chefnogaeth partneriaeth arall – boed mewn arian parod, amser gwirfoddoli neu gyfraniadau mewn modd eraill – yn gynwysiedig yn y gyllideb.

Y dyddiad cau ar gyfer cynigion terfynol ydy **5pm Dydd Mercher 30 Medi. 2020**

3. Defnyddio Dyfarniadau

Fe fydd gan pob corff ei anghenion unigol – ond, yn gyffredinol gall y GAFf gefnogi'r costau canlynol.

Costau cymwys:

- Hawliau ffilm a chludiant print,
- Gweithgaredd-costau staffio penodol e.e. curadu, marchnata neu gostau rheoli prosiect
- Costau llogi lleoliad a chostau offer gweithgaredd penodol,
- Ymgyrchoedd marchnata, cysylltiadau cyhoeddus a hysbysebu,
- Costau digwyddiad ar gyfer dangosiadau gydag ychwanegiadau e.e. ffioedd siaradwr, talent neu artist,
- Costau gwirfoddol a gwerthuso,
- Costau hygyrchedd – e.e. creu deunyddiau cefnogi hygyrch, ffioedd is-deitlo,
- Costau gwaith maes a chynhwysiant cymunedol e.e. darparu trafndiaeth i gynulleidfaodd ynysig,
- Costau datblygu cynulleidfa – e.e. gweithdai rhaglenwyr ifanc,
- Cliriadau hawliau a ffioedd curadu ar gyfer deunyddiau treftadaeth sgrin,
- Costau yn berthynol i weithgaredd ar-lein fel platfform we ffioedd cynnal.

Dydy'r rhestr yma ddim yn gyflawn a gellir ystyried eitemau eraill.

*Mae aelodau yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gymdeithasau ffilm, sinemau cymunedol, gwyliau ffilm, sinemau masnachol annibynnol (lleoliadau eiddo preifat sy'n dangos ymrwymiad i ffilmiau annibynnol) darparwyr digwyddiadau/pop yp, archifau, darparwyr/sefydliadau addysg ffilm, darlledwyr, dosbarthwyr ffilmiau, amblethiadau a chyrrff celf ehangach/heb fod yn ffilm.

Costau anghymwys:

Dylai pob cynnig gyfrannu at y gweithgaredd a gynnigir. Y tu hwnt i hyn, mae rhai meysydd yn anaddas ar gyfer cefnogaeth gan GAFF. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Costau gwneud ffilm (yn cynnwys gweithdai), cefnogaeth i wneuthurwyr ffilm i ddatblygu neu ddsbarthu eu gwaith eu hunain neu ar gyfer rhaglenni sydd yn ymgysylltu yn unig gyda chynulleidfaoedd o wneuthurwyr ffilmiau. Mae Ffilm Cymru Wales a Rhwydwaith BFI yn bodoli i gefnogi cynhyrchu a datblygu. Mae FHW yn gweithio drwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo ffilmiau sydd ar gael i'w harchebu i'n rhwydwaith arddangowyr. Edrychwch ar ein [tudalen gwneuthurwyr ffilm](#) i
- weld pa wybodaeth rydym ei angen.
- Costau cyfalaf yn cynnwys gwaith trwsio adeiladau, PPE neu fesurau iechyd a diogelwch ychwanegol sydd yn angenrheidiol oherwydd Covid-19. Dylid cyfeirio ymholiadau am gyfalaf at Gyngor Celfyddydau Cymru, darparwyr loteri eraill fel Cronfa'r Loteri Fawr Cymru
- Rhaglenni sydd yn cynnwys digwyddiadau am ddim, digwyddiadau heb docynnau neu lle na ellir adrodd ar nifer y gynulleidfa
- Costau rhedeg cyffredinol y cyrff heb fod yn benodol berthynol i'r gweithgaredd
- Gweithgaredd a ddylai gael ei gynnwys mewn addysg statudol, yn cynnwys digwyddiadau sydd yn digwydd ar dir ysgol/yn ystod oriau ysgol. Gallwch edrych ar gyllid addysg Ffilm Cymru Wales neu Into Film Cymru,
- Digwyddiadau nad ydyn nhw'n canolbwyntio'n bennaf a arddangos ffilmiau
- Gweithgaredd sydd yn gynnwysiedig mewn trefniadau cyllido cyfredol
- Rhaglenni sydd yn dyblygu darpariaeth yn yr un maes
- Gweithgaredd sydd yn digwydd mewn lleoliad nad yw ar agor i'r cyhoedd – e.e. lleoliad aelodau'n unig
- Sefydlu clybiau ffilm newydd ac agor sinemau newydd. Mae gwybodaeth ar gael hefyd drwy [Sinema i Bawb](#).

4. Sut i wneud cais am gyllid:

Er mwyn gwneud cais am gyllid gofynnir i chi gyflwyno ffurflen gynnig fer a chyllideb. Fe fydd y ffurflen gynnig yn rhoi cyfle i chi ddisgrifio eich gweithgaredd a sut mae'n cyfrannu at flaenoriaethau Canolfan Ffilm Cymru. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y gronfa, y broses gyflwyno neu os hoffech drafod eich cynnig cyn gwneud cais, mae croeso i chi gysylltu.

Os oes gennych unrhyw ofynion mynediad penodol (e.e. dogfennau hawdd eu deall), os hoffech gyflwyno eich cais mewn dull arall neu os oes gennych ymholiadau am y broses ymgeisio, cysylltwch gyda'n tîm a fydd yn hapus i drafod hyn.

Cynllun Cymorth Mynediad BFI

Os oes gennych ofynion mynediad sydd yn golygu eich bod angen cymorth wrth wneud cais am gyllid BFI, efallai y gallwch ofyn am gymorth ariannol drwy Gynllun Cymorth Mynediad BFI. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

5. Meini prawf asesiad:

Caiff eich cynnig ei asesu gan dîm Canolfan Ffilm Cymru. Fe fyddwn yn edrych yn benodol ar:

- Cymhwyster gweithgarwch: ydy'r gweithgaredd arfaethedig yn ateb blaenoriaethau a graddfa amser y gronfa,
- Cyrhaeddiad cynulleidfa: beth ydy'r targedau cynulleidfa a fydd y gweithgaredd arfaethedig yn eu cyflawni? Fe fydd nawdd y pen yn ystyriaeth. Tra ein bod yn gwerthfawrogi y bydd rhagweld derbyniadau yn anodd yn y cyd-destun cyfredol darparwch amcangyfrifadau os gwelwch yn dda,
- Effaith: beth ydy uchelgais diwylliannol y rhaglen arfaethedig? Oes partneriaethau perthnasol i gyflawni'r gweithgaredd yn effeithiol?
- Profiad sefydliadol: ydy'r corff yn gallu cyflawni'r gweithgaredd arfaethedig, yn cynnwys darparu marchnata, datblygu cynulleidfa a chynlluniau gwerthuso?
- Cyllideb : ydy'r holl gostau rhesymol wedi cael eu hystyried? Ydy'r gyllideb yn cydbwysu ac ydy'r holl gostau yn gymwys? Ydy costau mynediad yn gynnwysiedig?
- Gwaddol: beth ydy'r cynlluniau tymor hirach i barhau i gyrraedd cynulleidfaoedd?
- Safonau Amrywiaeth BFI: ydy'r cynnig yn delio yn glir gyda Safonau Amrywiaeth BFI?

Noder os gwelwch yn dda ein bod yn disgwyl y bydd y gronfa yma wedi gordanysgrifio ac na fyddwn efallai yn gallu cyllido eich gweithgaredd hyd yn oed os yw'n ateb y meini prawf.

6. Penderfyniadau ac Adborth

Cynigion aflwyddiannus

Os yw eich cynnig yn aflwyddiannus, byddwn yn cysylltu gyda chi ar e-bost. Dydy bod yn aflwyddiannus ddim yn eich atal chi rhag manteisio ar gyfleoedd y Ganolfan yn y dyfodol.

Cynigion llwyddiannus

Os ydy eich cynnig yn llwyddiannus, gall y panel asesu drafod unrhyw newidiadau angenrheidiol ac yn dymuno gweld cynllun diwygiedig cyn cadarnhau'r dyfarniad. Gall y broses yma gymryd amser ychwanegol. Fe fydd angen i linellau amser gweithgareddau roi ystyriaeth i hyn. Os nad oes unrhyw argymhellion neu newidiadau i'w gwneud, byddwch yn derbyn cadarnhad drwy e-bost yn nodi telerau ac amodau yn gysylltiedig gyda'r dyfarniad.

Fe fydd y rhain yn cynnwys gwybodaeth talu, canllawiau rhoi cydnabyddiaeth a gofynion monitro ac adrodd. Fe fydd angen i bob gweithgaredd a gyllidir arolygu eu cynulleidfaoedd gan ddefnyddio ein templed safonol – cofiwch am hyn wrth gynllunio eich strategaethau gwerthuso.

7. Cwynion ac Apeliadau

Mae'r penderfyniad cyllido yn derfynol. Bydd ceisiadau'n annorffod yn cael eu gwrthod a gall fod ymgeiswyr yn siomedig gyda'r canlyniad yma. Ni chaiff apeliadau ffurfiol yn erbyn y penderfyniad terfynol eu hystyried oni bai bod gan yr ymgeisydd reswm da i gredu na chadwyd at y weithdrefn ar gyfer prosesu'r cais, neu ei bod wedi ei defnyddio mewn modd oedd yn rhagfarnu canlyniad y cais.

Delwedd: WOW Women's Film Club: Gentle/Radical & WOW Film Festival © Tracey Paddison



AMDANOM NI

Mae Canolfan Ffilm Cymru (FHW) yn rhan o rwydaith DU gyfan o ganolfannau a gyllidir gan y Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI) i ffurfio Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN), a Chapter a benodwyd i fod yn Gorff Arweiniol Canolfannau Ffilm (FHLO) yng Nghymru.

Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cyllido dros 225 o brosiectau sinema, gan gyrraedd 465,000 o aelodau cynulleidfa.

Diolch i gyllid y Loteri Cenedlaethol, fel rhan o strategaeth 2022 BFI, dibyn y rhaglen datblygu cynulleidfa ydy:

- Galluogi rhaglennu ffilmiau diwylliannol arloesol ac anturus ledled Cymru gan helpu arddangoswyr i fuddsoddi'n rheolaidd mewn dewisiadau eofn hyrwyddo cyfranogiad dyfnach cynulleidfaeodd,
- Archwilio cynrychiolaeth a rhwystrau potensial i fynediad,
- Adnabod arwyddocad ffilmiau i gymunedau gwledig pellennig,
- Cysylltu gyda chynulleidfaeodd ifanc 16-30 oed,
- Cefnogi creadigrwydd sydd yn amgylcheddol ymwybodol.

Gyda'n gilydd fe fyddwn yn dathlu grym ffilm i geu partneriaethau cadarnhaol, sgiliau sydd yn newid bywyd a gwerth hanfodol ffilm fel treftadaeth a chelfyddyd, a hyrwyddo Cymru fel conglfaen diwylliant ffilm.

Am wybodaeth ynghylch rhywfaint o'n gwaith hyd yn hyn, edrychwch ar [uchafbwyntiau CFFC](#).

CAMAU NESAF

Os hoffech drafod cynnig potensial gyda FHW cyn y cais, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu - lisa@filmhubwales.org / 02920 311067

Hana Lewis, Rheolwraig Strategol y Ganolfan - hana@filmhubwales.org / 02920 353740

DIM YN AELOD O GANOLFAN FFILM CYMRU?

Mae ein haelodaeth AM DDIM i gyrff cymwys ac mae'n cynnig mynediad i'n hamrediad o gyllid, cefnogaeth a manteision. Darllenwch ein canllawiau i aelodau ac ymunwch [yma](#)